Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

16 Mai 2025

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Eisteddfod yr Urdd :** Dymuniadau gorau i bawb o deulu Glantaf sy'n cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ym Margam a mwynhewch eich profiad ar y llwyfan fawr! Llongyfarchiadau hefyd i'r disgyblion hynny fu'n llwyddiannus yng nghystadlaethau gwaith cartref a Celf a Dylunio yr Eisteddfod gyda Gwaith Celf 3D, dosbarth Gareth Bale, y Ganolfan a gwaith Edith McLean ar ei ffordd i Margam. Llongyfarchiadau hefyd i: Cyfansoddi Cerddoriaeth: Bl7-8 Ben Manville-Parry (2il) a Grace Harwood (3ydd); Bl12: Beca Davage (2il); Barddoniaeth: Bl9 Mathew Bill (3ydd); Bl12&13 Rhys Matthews (2il); Cyfansoddi sgript wreiddiol: Bl7 Ruby Haf James (2il). Byddwn yn rhannu amserlen pob cystadleuaeth Glantaf gyda chi ddechrau'r wythnos fel nad ydych yn colli dim o'r cyffro o'r maes ym Margam! Yn olaf, dewch bawb i gefnogi ein disgyblion yn ein Cyngerdd Eisteddfod, **Nos Iau 22ain Mai am 5pm** gyda thocynnau nawr ar werth ar ParentPay. Edrychwn ymlaen at noson fendigedig a chyfle i fwynhau talentau ein disgyblion wrth i ni ddymuno'n dda iddynt ar eu ffordd i Eisteddfod Dur a Môr dros yr hanner tymor.

**Arweinyddiaeth Glantaf a Bro Edern Medi 2026**


*Mr Dyfrig Rees, Mr Matthew Evans a Mrs Catrin Arnopp*

Fel yr ydych efallai yn ymwybodol, bydd Mr Matthew Evans, ein Pennaeth presennol yn camu i rôl arwain newydd ym Mis Medi, gyda chyfrifoldeb arwain strategol ar Ysgol Glantaf ac Ysgol Bro Edern, dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd Mr Dyfrig Rees yn camu i rôl newydd, Pennaeth Ysgol, wedi ei gefnogi gan Mrs Catrin Arnopp fydd yn Ddirprwy Bennaeth. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at bennod newydd yn hanes yr ysgol wrth i ni elwa o'r cydweithio strategol rhwng y ddwy ysgol a rhoi cyfleoedd ehangach i staff i ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau arwain newydd, er budd ein disgyblion. Fel Tîm Arwain, byddwn yn sicrhau ein bod yn cysylltu gyda chi yn gyson drwy gydol y cyfnod nesaf, yn holi eich barn ac yn falch o glywed am brofiadau addysgol ac allgyrsiol eich plentyn wrth iddynt dyfu a datblygu gyda ni yma yn nheulu Glantaf. Fel bob amser, mae cyswllt uniongyrchol ein staff arwain ar ein Gwefan Ysgol a bydd cyfleoedd cyson i chi ymweld â'r ysgol dros y blynyddoedd nesaf i drafod cynnydd a lles eich plentyn yma yng Nglantaf.

**Adolygaid Estyn ar Ymddygiad**

Rwy'n siwr bod nifer ohonoch yn gwybod bod adroddiad diweddar gan Estyn ar reoli ymddygiad, yn cyfeirio at eu hymweliad â Glantaf yn Nhymor yr Hydref, i gasglu arfer dda. Roeddem yn falch iawn bod ein gwaith wrth gefnogi a chynnal disgyblion yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad thematic . Yn hyn o beth, hoffwn ddiolch unwaith eto i ddisgyblion Glantaf am eu hymatebion aeddfed a chadarnhaol o fewn cymuned yr ysgol, a'r modd y maent yn gofalu am ei gilydd. Hoffwn ddiolch yn ogystal i staff yr ysgol am eu gwaith yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol sydd mor bwysig i ethos a chymuned mor gefnogol.



*Tim Rygbi XIII Bl8 yn sicrhau lle yn rownd derfynol Cwpan Prydain am yr ail flynedd yn olynol ..*

**Arholiadau a Phrofion Cenedlaethol:** Fel y gwyddoch mae arholiadau TGAU a Safon Uwch wedi dechrau eisioes a chawsom

wythnos dda yn cynnal arholiadau i ddisgyblion Bl 7-9. Hoffwn hefyd atgoffa rhieni y bydd y profion cenedlaethol darllen a rhif yn cael eu cynnal yn syth ar ôl y gwyliau, sef 2 – 13 Mehefin i holl ddisgyblion Bl 7, 8 a 9.


*Disgyblion y Ganolfan ar waith maes yng Nghastell Coch*

**Etholiad Rhiant Lywodraethwr:** Yr wythnos nesaf byddwn yn anfon llythyron enwebu ar gyfer dwy sedd rhieni ar y Corff Llywodraethol. Mae'n hyfryd gwahodd rhieni i ymuno â ni ar gyfer gwaith partneriaeth i'r cyfnod nesaf. Os daw mwy o enwau i law nag o leoedd, bydd etholiad i ddilyn yn y tymor nesaf.

**Buddsoddiad safle: llochesi tywydd gwael: Gwyl Glantaf 26 Mehefin**
Mae'r Corff Llywodraethu yn falch i gyhoeddi ein bod wedi dyrannu buddsoddiad ar gyfer adeiladu llochesi / cysgodfeydd tywydd gwael ar y safle. Rydym yn credu bydd hyn yn ychwanegiad gwerthfawr i ddisgyblion pan fyddwn yn profi tywydd gwael a phrinder ardaloedd cymunedol dan do. Er mwyn sicrhau'r cyllid angenrheidiol rydym am gynnal *Gwyl Glantaf* eto eleni, i ddathlu diwedd tymor gyda'n gilydd ond hefyd i godi arian mewn modd hwyliog a byrlymus. Byddwn yn gofyn i ddisgyblion gyfrannu at y gwaith (a'r hwyl!) drwy drefnu stondinau a gweithgareddau i godi arian.


*Yr 11 Farewell Ceremony*

**Digwyddiadau Tymor yr Haf 2025:**
Hoffwn rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau pwysig yn ystod yr wythnosau nesaf a hyd ddiwedd tymor yr haf:

| | |
|---|---|
| 21 Mai | Ymweliad College St Gilles, Nantes a Glantaf |
| 22 Mai | Cyngerdd Eisteddfod am 5pm |
| 26-31 Mai | Eisteddfod Dur a Môr / Gwyliau Hanner Tymor, Sulgwyn |
| 2 Mehefin | Dechrau tymor yr haf (wythnos 1) |
| 2-13 Meh | Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol Bl 7-9 |
| 9 Mehefin | Bl12 yn dychwelyd i wersi |
| 11 Mehefin | Bl12 Dydd Agored Prifysgol Caerdydd |
| 14-15 Meh | Tafwyl (Glantaf ar lwyfan ysgolion am 5.15pm ar y 15fed) |
| 16 Mehefin | Gweithdy Meddygaeth Bl11&12: Ysgol Feddygol y Gogledd a Phrifysgol Caerdydd |
| 20 Mehefin | Athletau Ysgol, Stadiwm Lecwydd; Dawns Ffarwel Bl 13 |
| 24 -25 Meh | Blasu Gwersi Chweched Dosbarth i Fl 11 |
| 26 Mehefin | Gwyl Glantaf; Dawns Ffarwel Bl 11 |
| 30 Mehefin | Dydd Agored Bl 6 |
| 2 Gorffennaf | Arddangosfa Celf |




Yn olaf, hoffwn longyfrach dau gyn-ddisgybl sydd wedi serenu yn y byd llenyddol yn ddiweddar sef: Carwyn Graves am ei gyfrol "*Tir: The story of the Welsh Landscape"* sydd ar rhestr fer, llyfr ffeithiol, greadigol, Llyfr y Flwyddyn, a hefyd Rebecca Thomas am ei nofel "*Y Twr*", sef llyfr y mis y Cyngor Llyfrau – llongyfarchiadau mawr! Hoffwn hefyd ddymuno'n dda i'r daith bel-droed Bl9 i Sbaen dros yr hanner tymor a dymuno'n dda eto i bawb sydd yn chwifio baner Glantaf draw ym Margam! *Amdani Glantaf!*


*Hufen Ia blasus i ffarwelio â Bl 11*

Yn gywir,
MHTEvans
Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf